Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol | Equality and Human Rights Commission

Jayne Bryant AS,
Cadeirydd,
Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg
Senedd Cymru,
Bae Caerdydd,
Caerdydd
CF99 1SN

Trwy e-bost

Dydd Iau 12 Mai 2022

Annwyl Ms Bryant,

## Testun: Cam 2 Bil Addysg Drydyddol ac Ymchwil (Cymru)

Mae gan y Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol (y Comisiwn) bwerau i gynghori Llywodraeth Cymru ar oblygiadau cydraddoldeb a hawliau dynol cyfreithiau a chyfreithiau arfaethedig ac i gyhoeddi gwybodaeth neu roi cyngor, gan gynnwys i'r Senedd, ar unrhyw fater sy'n ymwneud â chydraddoldeb, amrywiaeth a hawliau dynol.

Mae ein cynllun strategol ar gyfer 2022-2025 yn nodi chwe maes blaenoriaeth y byddwn yn canolbwyntio ein gwaith arnynt, gan gynnwys cydraddoldeb i blant a phobl ifanc a chydraddoldeb mewn gweithle sy'n newid. Gwyddom fod gormod o bobl ifanc yn wynebu gwahaniaethu a rhwystrau i gyfleoedd oherwydd rhagfarn neu ddiffyg cefnogaeth briodol mewn addysg a mynediad anghyfartal i waith.

Bydd y Comisiwn yn croesawu gohebiaeth yn y Gymraeg a'r Saesneg.

The Commission welcomes correspondence in Welsh or English.

**Ff/T:** 029 2044 7710
**E:** correspondence@equalityhumanrights.com

Ystafelloedd 3.18 / 3.19, The Maltings, Tŷ 3, East Tyndall Street,
Caerdydd, CF24 5EZ

Rooms 3.18 / 3.19, The Maltings, East Tyndall Street, Cardiff, CF24 5EZ

**equalityhumanrights.com**

Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol | Equality and Human Rights Commission

Bydd y Bil Addysg Drydyddol ac Ymchwil (Cymru) yn creu un corff i ymdrin â chynllunio strategol a chyllid ar draws y sector addysg drydyddol gyfan a'r sector ymchwil ac arloesi mewn perthynas â Chymru.

Rydym wedi croesawu cynnwys 'hybu cyfle cyfartal' ac 'annog cyfranogiad' fel dwy o naw dyletswydd strategol y Comisiwn Addysg Drydyddol ac Ymchwil (CTER).

Credwn fod cyfleoedd pellach o fewn y ddeddfwriaeth i nodi'n glir sut y gellir gwreiddio a chryfhau cydraddoldeb o fewn strwythur a llywodraethu'r CTER.

**Diffiniad o 'grwpiau heb gynrychiolaeth ddigonol'** – byddem yn argymell cynnwys y term 'nodweddion gwarchodedig'[1] fel y nodir yn Neddf Cydraddoldeb 2010 o fewn diffiniad y ddeddfwriaeth. Mae nifer o nodweddion gwarchodedig lle mae tystiolaeth yn dangos bod rhwystrau sylweddol o hyd o ran mynediad at addysg yn ogystal â gwahaniaethu mewn cyflogaeth.

**Adroddiad blynyddol** – byddem yn argymell bod adrodd ar gyfle cyfartal yn cael ei gynnwys yn y rhestr o'r hyn y bydd angen i'r CTER adrodd arno ar ddiwedd pob blwyddyn ariannol. Bydd hyn yn sicrhau atebolrwydd i'r CTER ymhellach. Byddem yn awgrymu ei fod yn cynnwys mesur cynnydd darparwyr addysg uwch o ran atal a mynd i'r afael ag aflonyddu hiliol. Roedd hwn yn argymhelliad yn ein hymchwiliad i aflonyddu hiliol mewn prifysgolion[2] ledled Cymru, Lloegr a'r Alban.

**Pwyllgorau** – bydd tri phwyllgor statudol – pwyllgor ymchwil ac arloesi, y pwyllgor ansawdd a phwyllgor penodi aelodau staff. Byddem yn argymell bod cydraddoldeb yn cael ei ymgorffori'n benodol yn yr adrannau o'r ddeddfwriaeth sy'n ymwneud â'r pwyllgorau hyn.

---

[1] Mae'r nodweddion canlynol yn nodweddion gwarchodedig— oedran; anabledd; ailbennu rhywedd; priodas a phartneriaeth sifil; beichiogrwydd a mamolaeth; hil; crefydd neu gred; rhyw; cyfeiriadedd rhywiol. (Deddf Cydraddoldeb 2010) https://www.legislation.gov.uk/ukpga/2010/15/section/4

[2] Mynd i'r afael ag aflonyddu hiliol: prifysgolion yn cael eu herio (2019 CCHD) https://www.equalityhumanrights.com/sites/default/files/mynd-i-r-afael-ag-aflonyddu-hiliol-prifysgolion-yn-cael-eu-herio-crynodeb-gweithredol.pdf

Bydd y Comisiwn yn croesawu gohebiaeth yn y Gymraeg a'r Saesneg.

The Commission welcomes correspondence in Welsh or English.

**Ff/T:** 029 2044 7710
**E:** correspondence@equalityhumanrights.com

Ystafelloedd 3.18 / 3.19, The Maltings, Tŷ 3, East Tyndall Street,
Caerdydd, CF24 5EZ

Rooms 3.18 / 3.19, The Maltings, East Tyndall Street, Cardiff, CF24 5EZ

**equalityhumanrights.com**

Bydd hyn yn sicrhau bod cyfle cyfartal yn ganolog i holl weithgareddau'r CTER gan gynnwys o ran ymchwil ac addysgu.

**Fframweithiau rheoleiddio** – yn ein hymchwiliad ar fynd i'r afael ag aflonyddu hiliol mewn prifysgolion gwnaethom argymell bod Llywodraeth Cymru yn adolygu'r fframwaith rheoleiddio a strwythurau gwrandawiadau llys i benderfynu ar y ffordd orau i gynyddu diogelwch rhag aflonyddu i fyfyrwyr mewn prifysgolion. Mae deddfwriaeth ddrafft Addysg Drydyddol ac Ymchwil (Cymru) yn rhoi cyfle i fynd i'r afael â hyn. Dylai'r ddeddfwriaeth sicrhau bod y CTER yn gallu asesu a yw darparwyr addysg uwch wedi cymryd camau digonol i fynd i'r afael ag aflonyddu ac i osod amodau cyllido neu gofrestru lle nad ydynt wedi gwneud hynny (megis atal neu ofyn am ad-daliad cyllid).

**Cynlluniau mynediad a chyfleoedd** – Rydym yn dal i bryderu am y penderfyniad i hepgor cynlluniau mynediad a chyfleoedd. Deallwn y cynigiwyd cynlluniau mynediad a chyfle i ddechrau yn lle cynlluniau ffioedd a mynediad a oedd yn cael eu hystyried yn ysgogydd pwysig ar gyfer ehangu mynediad a sicrhau cyfle cyfartal. Rydym felly yn argymell ystyriaeth bellach a bod trefniadau amgen cadarn yn cael eu cynnwys a'u gweithredu i ddarparu gofynion ac atebolrwydd clir ar ehangu mynediad gan gynnwys dwyn darparwyr i gyfrif.

Rydym wedi trafod yr argymhellion hyn gyda Llywodraeth Cymru, sydd wedi ymrwymo i ystyried sut y gellir eu gweithredu. Byddem yn croesawu'r cyfle i drafod y gwelliannau hyn ymhellach wrth i'r Bil fynd drwy'r broses ddeddfwriaethol. Am ragor o wybodaeth, cysylltwch â **wales@equalityhumanrights.com**

Bydd y Comisiwn yn croesawu gohebiaeth yn y Gymraeg a'r Saesneg.

The Commission welcomes correspondence in Welsh or English.

**Ff/T:** 029 2044 7710
**E:** correspondence@equalityhumanrights.com

Ystafelloedd 3.18 / 3.19, The Maltings, Tŷ 3, East Tyndall Street,
Caerdydd, CF24 5EZ

Rooms 3.18 / 3.19, The Maltings, East Tyndall Street, Cardiff, CF24 5EZ

**equalityhumanrights.com**

Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol | Equality and Human Rights Commission

Yr eiddoch yn gywir,

Parch. Ruth Coombs

Pennaeth Cymru

Cymru | Wales

Bydd y Comisiwn yn croesawu gohebiaeth yn y Gymraeg a’r Saesneg.

The Commission welcomes correspondence in Welsh or English.

**Ff/T:** 029 2044 7710
**E:** correspondence@equalityhumanrights.com

Ystafelloedd 3.18 / 3.19, The Maltings, Tŷ 3, East Tyndall Street,
Caerdydd, CF24 5EZ

Rooms 3.18 / 3.19, The Maltings, East Tyndall Street, Cardiff, CF24 5EZ

**equalityhumanrights.com**